

DAVIES, DAVID (1818 - 1890), Llandinam, diwydiannwr ac Aelod Seneddol

Enw: David Davies

Dyddiad geni: 1818

Dyddiad marw: 1890

Priod: Margaret Davies (née Jones)

Plentyn: Edward Davies

Rhiant: Elisabeth Davies

Rhiant: David Davies

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: diwydiannwr ac Aelod Seneddol

Maes gweithgaredd: Diwydiant a Busnes; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol

Awdur: Ivor Bulmer-Thomas

Ganwyd yn Llandinam, 18 Rhagfyr 1818, yr hynaf o naw o blant David ac Elisabeth Davies. Gadawodd ysgol y pentref pan oedd yn 11 oed ac aeth i helpu ei dad ar y fferm a llifio coed dros eraill am dâl; gymaint oedd ei rymuster fel llifiwr nes yr ymffrostiai yn ddiweddarach yn ei oes a'i alw ei hun yn 'top sawyer.' Pan fu farw ei dad yn 1846 syrthiodd gofal amryw o'r brodyr a'r chworydd ieuengaf ar ei ysgwyddau ef. Yr un flwyddyn fe'i gwahoddwyd i osod sylfeini pont dros afon Hafren yn Llandinam a'r ffordd tuag at y bont. Dyma bellach newid cwrs ei fywyd - daeth i ymgymryd â gwaith cyffelyb ar raddfa eang. Yn 1855 gwnaeth adran gyntaf y rheilffordd rhwng Llanidloes a'r Drenewydd (a agorwyd yn 1859). Yn ddiweddarach, gyda gwahanol bartneriaid - Thomas Savin yn eu plith - gwnaeth reilffyrdd eraill - dyffryn Clwyd (a agorwyd yn 1858), Croesoswallt a'r Drenewydd (1861), y Drenewydd a Machynlleth (1862), Penfro a Dinbych-y-pysgod (1863 - fe'i hestynwyd i'r T -gwyn-ar-Daf yn 1866), y 'Manchester and Milford' (o Bencader i Aberystwyth, 1867), y Fan (o Gaersws i weithydd mwyn y Fan, 1871). [Benjamin Piercy](#) oedd y peiriannydd ar y rhan fwyaf o'r rheilffyrdd hyn; yn 1862 aeth David Davies gyda [Piercy](#) i Sardinia, pan wahoddwyd y peiriannydd i gynghori'r cwmni a oedd wedi cael yr hawl i wneud rheilffyrdd yn yr ynys honno.

Yn 1864 prydlesodd David Davies dir yn rhan uchaf Cwm Rhondda Fawr a thorrodd byllau glo 'r Parc a'r Maendy. Ffurflwyd cwmni preifat - 'David Davies and Co.' - yn 1867 o dan ei lywyddiaeth ef i weithio'r pyllau 'Ocean Merthyr' hyn, a thyllwyd pyllau eraill - Dare (1868), Western ac Eastern (1872), Garw (1884), a Lady Windsor (1887). Erbyn 1887 yr oedd cynnyrch y pyllau wedi cynhyddu cymaint nes y penderfynwyd ffurfio cwmni newydd - yr 'Ocean Coal Company Ltd.'

Oherwydd na allai'r Taff Vale Railway a dociau ardalydd Bute yng Nghaerdydd ddelio â chymaint yn ychwaneg o drafnidiaeth, penderfynodd David Davies wneuthur doc newydd yn y Barri a chael rheilffordd yno o'r Rhondda. Yn wyneb gwrthwynebiad cryf yn y Senedd - a thu allan iddi - llwyddodd yn ei ymgyrch a gorffennwyd y gwaith yn 1889.

Llwyddodd David Davies gymaint yn y byd diwydiannol nes dyfod yn r cyfoethog iawn; prynodd ystadau a dechreuodd gymryd rhan ym mywyd cyhoeddus y wlad. Yn 1865 methodd (yn erbyn Rhyddfrydwr arall) â chael ei ddewis yn aelod seneddol dros sir Aberteifi; llwyddodd, yn 1874, a thrachefn yn 1880, i gael ei ethol, heb wrthwynebiad, yn aelod dros

fwrdeisdrefi Ceredigion. Fe'i dychwelwyd yn 1885 hefyd, eto heb wrthwynebiad; yn 1886, fodd bynnag, anghytunodd â Mr. Gladstone ar fater ymreolaeth i Iwerddon a cholodd ei sedd.

Yr oedd David Davies yn un o lywodraethwyr cynharaf Coleg Prifathrofaol Aberystwyth; yn 1875 fe'i hetholwyd yn drysorydd a bu'n dal y swydd honno hyd 1887. Fe'i dewiswyd yn ddi-wrthwynebiad yn 1889 i gynrychioli Llandinam ar gyngor sir cyntaf sir Drefaldwyn.

Priododd, yn 1851, Margaret Jones, o Lanfair Caereinion, a bu iddynt un mab - EDWARD DAVIES. Bu farw 20 Gorffennaf 1890 ar ôl dioddef afiechyd hir.

Yn rhinwedd ei alluoedd a'i ymdrechion ei hun y daeth David Davies yn gyfalafwr. Yr oedd yn ddyledus am ei lwyddiant i gyfuniad o wroldeb a phwyll. Nid amharwyd ar rinweddau ei fywyd boreol syml gan y cyfoeth mawr a gasglodd ac y bu yn rhannu cymaint ohono i achosion crefyddol ac addysgol ac i unigolion. Fe'i dygwyd i fyny'n Fethodist Calфинаidd, yr oedd wrth natur yn grefyddol ei ysbryd, ac fe barhaodd yn Biwritan yn ei syniadau am y wirod a chadwraeth y Saboth. Er bod ei ymadrodd yn syml, heb ei ddisgyblu, yr oedd ganddo gryn fesur o huodledd cartrefol a hiwmor dyn o'r wlad.

Awdur

Ivor Bulmer-Thomas, (1905 - 1993)

Ffynonellau

R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (1894)

Goronwy Jones, *David Davies (1818-1890) Llandinam* (Gwrecsam 1913)

Ivor Thomas, *Top Sawyer a biography of David Davies of Llandinam* (Carmarthen 1938)

C. P. Gasquoine, *The Story of the Cambrian: a biography of a railway* (Oswestry 1922)

The South Wales Coal Annual, 1906

History of the Barry Railway Company, 1884-1921 (Caerdydd 1923)

Llandinam papers yn L.I.G.C.

Darllen Pellach

Archifau LIGC: [Cardiganshire Parliamentary Election address \(1866\) of David Davies](#)

Archifau LIGC: [General Election 1885: Mr. David Davies's Candidature: Meeting at Aberystwyth](#)

Archifau LIGC: [Cardigan County Election, 1885: Ballot Paper](#)

Archifau LIGC: [Mr Bowen Rowlands' Supporters are respectfully requested to Vote as shewn below](#)

Erthygl Wicipedia: [David Davies](#)

Delweddau

LIGC: [David Davies](#)

LIGC: [David Davies, born 1818 died 1890](#)

Dolenni Ychwanegol

Archifau LIGC: [David Davies of Llandinam Papers](#)

Archifau LIGC: [Lord Davies of Llandinam Papers](#)

VIAF: [10657779](#)

Wikidata: [Q5232857](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

